

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb ei gadarnhau

**Munudau Cyfarfod y Bwrdd Iechyd
cynhelir ar 28 Mai 2020****yn Ystafell y Mileniwm, Pencadlys y Bwrdd Iechyd, Baglan a thrwy Skype****Aelodau'r Bwrdd a
oedd yn Bresennol**

Emma Woollett	Cadeirydd Dros Dro
Tracy Myhill	Prif Weithredwr
Martyn Waygood	Is-gadeirydd Dros Dro (drwy Skype)
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol (drwy Skype)
Gareth Howells	Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf (drwy Skype)
Chris White	Prif Swyddog Gweithredu / Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Siân Harrop-Griffiths	Cyfarwyddwr Strategaeth (drwy Skype)
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (drwy Skype)
Martin Sollis	Aelod Annibynnol (drwy Skype)
Darren Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (dros Skype)
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol (dros Skype)
Jackie Davies	Aelod Annibynnol (dros Skype)
Reena Owen	Aelod Annibynnol (dros Skype)
Tom Crick	Aelod Annibynnol (dros Skype)
Andrew Jarrett	Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd (dros Skype)
Kathryn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (drwy Skype)
Mark Child	Aelod Annibynnol (drwy Skype)
Keith Lloyd	Aelod Annibynnol (drwy Skype)

Hefyd yn Bresennol:

Pamela Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Dorothy Edwards	Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid (drwy Skype)
Matt John	Prif Swyddog Digidol a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Digidol (drwy Skype)
Irfon Rees	Pennaeth y Staff (drwy Skype)
Hannah Evans	Cyfarwyddwr Trawsnewid (drwy Skype)
Hugh Patrick	Cyngor Iechyd Cymunedol (drwy Skype)
Steve Spill	Cynghorydd Arbennig i'r Bwrdd (drwy Skype)
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Carol Moseley	Archwilio Cymru (drwy Skype)
Helen Higgs	Archwilio Mewnol (drwy Skype)

Rhif Munud		Gweithrediad
156/20	YMDDIHEURIADAU	
	Derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer absenoldeb gan Maggie	

	Berry, Aelod Annibynnol.	
157/20	CROESO / SYLWADAU AGORIADOL	
	Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn benodol Keith Lloyd, sydd wedi ymuno â'r bwrdd fel aelod annibynnol y brifysgol, a Steve Spill fel y cynghorwr arbennig ar gyfer perfformiad a chyllid.	
158/20	DATGANIAD BUDDIANNAU	
	Nid oedd datganiad o fuddiant.	
159/20	MUNUDAU'R CYFARFOD BLAENOROL	
	Derbyniwyd a chadarnhawyd munudau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2020 fel cofnod gwir a chywir.	
160/20	MATERION SY'N CODI	
	Ni chodwyd unrhyw faterion nag oedd ar yr agenda yn barod.	
161/20	COFNOD GWEITHREDU	
	Derbyniwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.	
162/20	Diweddariad Covid-19	
	Wrth gyflwyno'r diweddariad mewn perthynas â Covid-19, cydnabuodd Tracy Myhill farwolaeth Elizabeth Spooner a oedd wedi bod yn aelod o staff Ysbyty Singleton am fwy na 41 mlynedd. Mynegodd hefyd y byddai'r rhaglen profi, olrhain a gwarchod rhan sylweddol o ymateb y bwrdd iechyd i'r pandemig wrth symud ymlaen a byddai'n nodwedd bwysig yn ei gynlluniau. (i) <u>Diweddariad Cyffredinol</u> Derbyniwyd diweddariad cyffredinol ynghylch Covid-19. Wrth gyflwyno'r diweddariad, amlygodd Keith Reid y pwyntiau canlynol: - Talwyd teyrnged i waith caled y staff wrth ymateb i'r pandemig yn ogystal â'r cydweithwyr hynny a gollwyd;	

	- Parhaodd strwythur reoli efydd, arian ac aur yn eu lle ond gyda rhai trefniadau ar raddfa lai i adlewyrchu'r lleihad yn y pwysedd uniongyrchol; - Roedd rhai gwasanaethau sydd heb wneud â Covid-19 yn ailddechrau ond gyda chynlluniau yn y cefndir rhag ofn bod ail don o heintiau a phwyntiau wedi eu hadnabod; - Arhosodd y pwysau ar y gweithlu ond roedd y staff yn dechrau dychwelyd i'r gwaith ac roedd yr absenoldebau yn awr yn debyg i rai'r gaeaf, heblaw am y rheiny oedd yn gwarchod; - Roedd profi yn datblygu'n gyflym, ac roedd y bwrdd iechyd mewn safle i gwrdd â gofynion y rhaglen genedlaethol; - Cynigiwyd profi yn bresennol i weithwyr gofal iechyd a chymdeithasol ond byddai ar agor i'r cyhoedd o'r penwythnos, ar sail gyfyngedig i ddechrau; - Roedd rhaglen yn ei le ar gyfer profi o fewn cartrefi gofal; - Roedd y sefyllfa cyfarpar diogelu personol yn sefydlog gyda digon o stoc ar bob safle ar gyfer 48 awr, gan fod angen ei wisgo yn awr i drin bob claf; - Byddai pellhau cymdeithasol yn lleihau'r gyfradd pryd gall staff ddychwelyd i'r gwaith a byddai angen ystyried systemau rota ochr yn ochr â pharhau gweithio o gartref. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Diolchodd Emma Woollett i Keith Reid a Dorothy Edwards ar gyfer ei gwaith i arwain ymateb y bwrdd iechyd. Ymholodd Mark Child os oedd y profi ar gyfer cartrefi gofal yn benodol ar gyfer yr henoed neu os oedd yn cynnwys cyfleusterau preswyl ar gyfer pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau dysgu. Ymatebodd Keith Reid os oedd preswilydd neu aelod o'r staff yn symptomatig, os fyddent yn gymwys ar gyfer prawf, ond mae rhaglen brofi cartrefi gofal Llywodraeth Cymru ond yn gymwys ar gyfer cyfleusterau ar gyfer cleifion hŷn. Mynnodd Mark Child am eglurder os byddai profi'r cartrefi gofal yn ddigwyddiad unigol neu'n rhaglen dreigl. Cynghorodd Keith Reid nad oedd rhaglen brofi treigl yn bolisi gwladol ar hyn o bryd ond parhaodd i fod yn rhan o'r trafodaethau yn y cyfarfodydd Cymru gyfan - ac roedd un o'r cyfarfodydd hynny'r dydd canlynol. Ychwanegodd Tracy Myhill fod y trafodaethau o ran amledd y profi yn mynd yn ei flaen. Gofynnodd Emma Woollett os byddai cartref gofal yn cael ei ail brofi os byddai preswilydd neu aelod o'r staff yn dod yn symptomatig. Cynghorodd Keith Reid y byddai'r person penodol yn	
--	--	--

	derbyn prawf ond ni fyddai'r holl raglen o brofi'n cael ei adrodd. Ychwanegodd y byddai'r profi yn ymddangos i fod yn ganolbwynt y rhan fwyaf o bobl wrth dragon rheoli achos, ble mai egwyddorion rheoli haint a defnydd cyfarpar diogelu personol ddylai fod yn flaenoriaeth, gan mai dyma'r mesurau mwyaf effeithiol i atal risg trosglwyddiad. Cyfeiriodd Martyn Waygood at y debygolïaeth fod nifer anghymesur o bobl dduon ac Asiaidd ag o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a effeithiwyd gan y firws ac ymholodd os byddai asesiad risg Llywodraeth Cymru ar gyfer staff ar gael. Cadarnhaodd Tracy Myhill y Dyroddwyd ef y dydd blaenorol. Nododd, ar ôl trafodaethau gyda rhwydwaith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig y bwrdd iechyd, fod y sefydliad wedi cyfrannu at ddatblygiad canllawiau gwladol, a wnaeth gynnwys ymgorfforiad ffactorau risg eraill megis pwysau, oedran a chyflyrau tanseiliol, a gallant oll beri risg i'r staff. (ii) <u>Profi, Orlhain ac Amddiffyn</u> Derbyniwyd adroddiad oedd yn mynegi dull y bwrdd iechyd i raglen profi, olrhain ac amddiffyn Llywodraeth Cymru. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Siân Harrop-Griffiths y pwyntiau a ganlyn: - Roedd profi, olrhain ac amddiffyn i fod i fynd yn fyw ar 1 Mehefin 2020; - Cynghorodd Llywodraeth Cymru y byddai angen cwblhau tua 10,000 o brofion y dydd ac mai 1,277 fyddai cyfraniad y bwrdd iechyd. Sefydlwyd capasiti er mwyn cyflawni hyn, ac mae gan y Bwrdd Iechyd y potensial i ychwanegu mwy os yr estynnir oriau agor yr unedau profi; - Byddai dau dîm ym mhob awdurdod lleol gyda recriwtio a hyfforddiant ar waith, gan sicrhau fod y trefniant weithredu safonol a osodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio; - Ni fyddai'r system ddigidol yn ei le tan 8 Mehefin 2020, felly byddai wythnos gyntaf y rhaglen yn cael ei gwblhau wrth law ar sail dros dro; - Roedd angen i dîm rhanbarthol i fod yn ei le erbyn Mehefin 2020 i reoli achosion clwstwr ac i ddarparu cyngor cyffredinol; - Mae'r tîm olrhain cyswllt lleol yn bresennol yn cynnwys staff wedi eu diogelu a oedd angen ailddatblygiad dros dro a oedd yn ei wneud yn fregus os fyddai'n rhaid iddynt ddychwelyd i'w swyddi parhaol. Roedd angen cadarnhad cyllid gan Lywodraeth Cymru cyn y gellid recriwtio ar gyfer	
--	--	--

	ateb mwy cadarn; - Roedd yr effaith potensial ar staff y rhaglen yn sylweddol oherwydd os byddai unrhyw un yn profi i fod yn bositif, byddai'r siawns fod angen i bob cydweithiwr agos i ynysu am bythefnos, a fyddai'n lleihau'r nifer o staff sydd ar gael yn sylweddol. Nid oedd hyn yn risg ar gyfer iechyd yn unig ond hefyd ar gyfer gofal cymdeithasol a chartrefi gofal. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cynghorodd Keith Reid for y system seiliedig ar y we ar gyfer gofyn am brofion yn GIG Lloegr yn wahanol i'r system yng Nghymru, a oedd yn arwain at leihad mewn effeithlonrwydd yr unedau profi oherwydd roedd angen wedyn creu cais prawf Cymraeg wrth law oherwydd nad oedd y ddwy system yn alinio. Ychwanegodd fod rhaglen ar gyfer profi gwrthgyrff ar fin cael ei roi ar waith, a gweithwyr gofal iechyd fyddai'r cyntaf i gael mynediad iddo. Gofynnodd Reena Owen am eglurder am gywirdeb y citiau profi cartref yn ogystal ag amser gweithdroad ar gyfer profi yn gyffredinol. Ymatebodd Keith Reid fod y citiau profi cartref wedi cael eu gwneud ar gael yn seiliedig ar dystiolaeth a ddangosodd eu bod mor gywir â'r rheiny a ymgymrwyd mewn gosodiad gofal iechyd, ond roedd cwestiwn am gywirdeb y canlyniadau pan roedd y cleifion yn asymptomatig. Ychwanegodd fod gan amseroedd gweithdroad darged o 48 awr, er bod yna beilotiaid ar waith yn GIG Lloegr o brofi pwynt gofal cyflym, sydd â chost o £120 yr un, ond efallai byddai angen eu defnyddio mewn rhai sefyllfaoedd o fewn GIG Cymru unwaith y byddant ar gael. Mynegodd Hazel Robinson fod yna gyfradd absenoldeb y gweithlu potensial o 20% yn seiliedig ar fodelu'r rhaglen profi, olrhain ac amddiffyn a oedd yn gyson gyda byrddau iechyd eraill. Ychwanegodd ei bod yn poeni fwy am y rheiny sydd wedi cael y firws ond sydd yn asymptomatig, oherwydd nid oes syniad ganddynt beth fyddai'r effaith potensial ar y staff. (iii) <u>Trawsffurfiad Digidol</u> Derbyniwyd adroddiad yn mynegi'r trawsffurfiad digidol yn ystod y pandemig. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Matt John y pwyntiau canlynol: - Mae cyflymiad sylweddol wedi bod mewn trawsffurfiad digidol wedi bod yn amlwg, er enghraifft mewn modelau clinigol a gweithio o bell; - Roedd data byw yn cael ei gipio gan staff ar draws y sefydliad oedd yn darparu'r wybodaeth busnes i hysbysu	
--	---	--

	gwneud penderfyniadau; - Byddai'n gritigol i barhau momentwm newid wrth i'r bwrdd iechyd symud yn ei flaen. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Amlygodd Emma Woollett fod cynllun digidol y bwrdd iechyd wedi cael ei gydnabod yn ymateb Llywodraeth Cymru i'w gynllun chwarter cyntaf. Cymeradwyodd Nuria Zolle'r gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn o fewn cyfnod byr o amser, ac ymholodd os oedd Llywodraeth Cymru mewn safle i ariannu'r gwaith digidol. Ymatebodd Matt John fod yna ddiffyg presennol yn y cyfalaf angenrheidiol ac roedd trefniadau yn mynd yn eu blaen yn genedlaethol, fel y gofynnwyd i'r holl sefydliadau i ddarparu adlewyrchiadau ar sut mae systemau megis 'Mynediad Unrhyw Le' wedi gweithio ar draws Cymru ar gyfer dadansoddi'r buddion. Mynegodd Tom Crick fod y gwaith yn rhywbeth y dylai'r bwrdd iechyd fod yn falch ohono gan fod y dull y defnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd o ystyried y pwyseddau presennol yn rhywbeth y dylid ei efelychu. Ymholodd ynghylch y lefel o hyder y byddai'r gwaith yn dod yn brif ffrwd unwaith y byddai 'busnes fel arfer' yn ei le ag roedd y cwmpas yno i wneud y fath fentrau yn fwy cyffredinol. Ymatebodd Matt John y bydd raid i bobl dderbyn newid yn fwy aml, gan fod technoleg wedi galluogi penderfynu symlach, felly roedd yn bwysig fod angen mwyhau beth oedd wedi bod yn llwyddiannus. Cytunodd Tom Crick, gan ychwanegu fod y cyfleoedd newydd wedi cynyddu'r posibilrwydd o risg ond fod y Pwyllgor Archwilio yn craffu hwn yn agos. Darparodd Chris White fel y swyddog cyfrifol uwch ar gyfer y rhaglen ofal wedi'i gynllunio'n genedlaethol sicrwydd i Tom Crick fod y llwyddiant o symudiadau digidol ymlaen yn cael ei fwydo i mewn i'r trafodaethau ac ystyriwyd ef hefyd yn y digwyddiad Tîm Cymru ar gyfer sefydliadau GIG. Cynghorodd Hannah Evans tra ei fod yn bwysig i gydnabod y ffordd ystwyth y mabwysiadwyd technoleg, nid oedd gweithio arloesol wedi ei gyfyngu i wasanaethau digidol, a byddai'n bwysig i gipio datblygiadau eraill, ac roedd hynny'n rhan o'r rhaglen adfer, dysgu ac arloesi.	
Penderfyniad:	(i) <u>Diweddariad Cyffredinol</u> - Nodwyd y trefniadau llywodraethu yn cefnogi ymateb y bwrdd i Covid-19; - Nodwyd y safle wedi'i ddiweddararu ers y trefniadau ymateb olaf;	

	- Nodwyd y risgiau critigol trosfwaol i'r bwrdd iechyd ar yr amser hwn. (ii) <u>Profi, Orlhain ac Amddiffyn</u> - Nodwyd gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen profi, olrhain ac amddiffyn; - Nodwyd fod cynnydd wedi ei wneud ar draws Bae Abertawe wrth weithredu'r rhaglen profi, olrhain ac amddiffyn; - Nodwyd y risgiau cysylltiol i weithredu'r rhaglen; - Nodwyd y byddai diweddariad geiriol pellach yn cael ei roi yng nghyfarfod y bwrdd iechyd. (iii) <u>Trawsffurfiad Digidol</u> - Nodwyd y cynnydd a wnaed wrth gyflymu rhoi isadeiledd, dyfeisiau ac atebion digidol i gefnogi ymateb y bwrdd iechyd i Covid-19; - Nodwyd cyflenwad dangosfwrdd gwybodaeth iechyd a modelu data er mwyn galluogi ymateb wedi'i hysbysu gan ddata i Covid-19.	
163/20	CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER UN	
	Derbyniwyd cynllun gweithredol y bwrdd iechyd ar gyfer chwarter un. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Siân Harrop-Griffiths y pwyntiau a ganlyn: - Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd i gyflwyno cynllun chwarter un i Lywodraeth Cymru o fewn cyfnod byr o amser; - Cwblhawyd hyn ac roedd o flaen y bwrdd er mwyn ei gadarnhau, er nad oedd disgwyliad y byddai angen cyflwyno drafft pellach; - Digwyddodd trafodaeth fanwl am ei gynnwys yn ystod y Grŵp Llywio Adferiad, Dysgu ac Arloesi yn gynharach yr wythnos honno; - Derbyniwyd dau set o adborth gan Llywodraeth Cymru; un lefel uchel a nodwyd arfer da mewn perthynas â'r gweithio mewn partneriaeth a gwasanaethau hanfodol, wedi ei ddilyn gan adborth mwy manwl yn amlinellu risgiau dichonol ac ardaloedd i ystyried ar gyfer mwy o ddatblygiad; - Gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau canser yn ogystal ag ardaloedd sydd yn	

	botensial mewn ardaloedd isel mewn Covid. - Cynlluniwyd cyfarfod adolygu rhwng y bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru ar gyfer yr wythnos ganlynol; - Byddai angen i gynllun yr ail chwarter i gynnwys canolbwynt ar gynllunio yn ystod y gaeaf. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Nododd Nuria Zolle fod y cynllun wedi cyfeirio at yr angen i fod yn hyblyg ac addasadwy ac ymholodd os oedd sbardunau yn eu lle rhag ofn bod angen lleihau gwasanaethau wrth ymateb i ail begwn. Ymatebodd Hannah Evans yr ataliwyd gwasanaethau yn gyflym ar ddechrau'r pandemig a byddai hyn yn darparu gwersi yn nhermau beth a fyddai a beth na fyddai'n cael ei barhau. Ychwanegodd fod y cynnydd mewn darpariaeth gwasanaethau ddim i'w wneud gyda Covid-19 yn cael ei weithredu drwy lens effaith risg ac ansawdd i ddarparu mwy o reolaeth, ac ystyriwyd Cyfarpar Diogelu Personol a phellhau cymdeithasol, ond roedd yr her dda oherwydd beth oedd ar goll o'r cynllun oedd pa mor hawdd fyddai i gamu'n ôl o wasanaethau mewn ymateb i ymchwydd arall. Mynegodd Chris White fod proses esgoli debyg wedi ei ddefnyddio ar gyfer yr achos Covid hwn i'w gymharu i weithdrefnau esgoli arferol. Roedd hyn yn awr yn esblygu i rywbeth mwy deallus ar gyfer defnydd yn y dyfodol a byddai'r rhaglen tracio, olrhain ac amddiffyn yn helpu i hysbysu rhai o'r meddwl hwnnw. Sylwodd Martin Sollis y byddai'n bwysig i beidio â diystyru'r risgiau mae'r gweithlu'n wynebu gan y bydd ganddynt ran integrol yng ngallu'r bwrdd iechyd i gyflawni. Cynghorodd Darren Griffiths fod gorwariant o £23 wedi ei adnabod ar gyfer cynllun chwarter un, gan gynnwys gorwariant gweithredol rhagolygol yn ogystal â'r llithriad ar arbedion cynlluniedig o ganlyniad i Covid-19, a chost net o ymateb i'r pandemig. Mae trafodaethau wythnosol yn cymryd lle o fewn Llywodraeth Cymru o ran costau'r pandemig. Ychwanegodd Tracy Myhill y disgwyliwyd y byddai Uned Gyflawni Ariannol GIG Cymru yn cwblhau adolygiad ariannol o holl gynlluniau charter un a rhannir unrhyw adborth gyda'r bwrdd. Cymeradwyodd waith y tîm gweithredol ar y cyflymder a'r ffocws a roir i ddrafftio'r cynllun mewn cyfnod byr iawn o amser, gan gadarnhau y byddai'r ffocws yn awr yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer chwarteri dau a thri. Mynegodd Emma Woollett fod ei fod yn bwysig i adnabod pa mor anodd y byddai darparu ardaloedd sy'n rhydd o Covid-19. Ychwanegodd fod hyblygrwydd mewn profi yn ogystal â'r rhaglen profi, olrhain ac amddiffyn yn sylfaenol o safbwynt gweithredol er mwyn ymestyn gwasanaethau hanfodol yn ddiogel.	
--	--	--

Penderfyniad:	- Ystyriwyd drafft cynllun gweithredol chwarter un ar gyfer 2020-21; - Dylid cadarnhau’r cynllun ar gyfer cyflwyniad terfynol i Lywodraeth Cymru.	
164/20	ADRODDIAD PERFFORMIAD	
	Derbyniwyd adroddiad ar lafar mewn perthynas â pherfformiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Darren Griffiths y pwyntiau a ganlyn: - Mae gwasanaethau craidd wedi cael eu 'plygu' yn sylweddol er mwyn cynorthwyo'r ymateb i Covid-19; - Mae newidiadau ymddygiad sylweddol wedi bod o fewn y boblogaeth wrth iddo addasu i fyw gyda'r pandemig; - Roeddem wedi cadw'r cipio data ond mewn rhai ardaloedd roedd heb ei ddilysu oherwydd pwyseddau gweithlu; - Parhaodd mynediad i wasanaethau iechyd meddwl i fod yn dda; - Roedd newidiadau sylweddol wedi bod yn amlwg o ran gofal heb ei gynllunio, gyda gwelliannau yn y targed arhosiad pedair awr, gydag oediadau trosglwyddo i'r ambiwlans o un awr ac arosiadau o 12 awr. Roedd yna leihad yn y nifer o bobl yn mynychu yn yr adran argyfwng ers dechrau'r canllawiau pellhau cymdeithasol, ond roedd y lefelau yn awr yn dechrau cynyddu; - Yn nhermau gofal wedi'i gynllunio, er bod maint y rhestrau aros ddim yn tyfu wrth i lai o gyfeiriadau eu derbyn, roedd yr hyd o amser roedd cleifion yn aros amdano yn cynyddu oherwydd llai o wasanaethau; - Roedd safle tebyg yn amlwg o fewn gwasanaethau canser, gyda llai o gyfeiriadau ond gydag ôl-groniad wedi ei gynyddu; - Roedd perfformiad gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) wedi ei leihau fymryn bach a bydd angen ei gadw o dan adolygiad; - Roedd y cyfraddau ymateb i bryderon wedi cwmpo ond cwblhawyd y rhan fwyaf ohonynt o fewn y cyfyngiadau; - Cynyddodd absenoldeb salwch i 7% ond nid oedd hyn yn cynnwys y rheiny oedd yn amddiffyn eraill; - Roedd y gofal oedd yn cael ei ddarparu yn hynod o wahanol	

	ac roedd yn ymgorffori arloeson ardderchog a fyddai angen ei barhau, ond oedd yna risgiau i'w ystyried ar gyfer y rheiny oedd yn aros ymhellach ar gyfer gofal. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Ymholodd Emma Woollett pam nad oedd perfformiad gofal heb ei drefnu yn uwch oherwydd y nifer llai o fynychwyr. Ymatebodd Chris White fod staff nid yn unig yn parhau i reoli cleifion cymhleth oedd wedi derbyn clwyf neu anhwylder aciwt, ond mae amrywiolion eraill, megis Cyfarpar Diogelu Personol neu gleifion Covid-19 tybiedig, a wnaeth y broses yn arafach. Ychwanegodd er dweud hynny, y comisiynwyd darn o waith er mwyn penderfynu pam nad oedd perfformiad yn yr 80% neu 90% uchel. Mynegodd Reena Owen ei fod yn bwysig i bwysleisio fod y bwrdd iechyd ar agor os oedd pobl ei angen. Darparodd Chris White sicrwydd fod sianelau cyfathrebu'n cael eu defnyddio i gynghori'r cyhoedd. Cytunodd Emma Woollett, gan ychwanegu bod risg bod pobl yn osgoi defnyddio gwasanaethau er gwaethaf eu hangen, ond roedd hefyd yn bosibl bod arloeson digidol newydd a alluogodd feddygon teulu i ofyn am ail farn gan ymgynghorwyr yn lleihau'r angen i gleifion gael mynediad at wasanaethau gofal eilaidd. Holodd Martyn Waygood i ba raddau yr oedd cyfathrebiadau'n digwydd gyda meddygon teulu ynghylch yr 'normal' newydd. Ymatebodd Chris White fod cydweithwyr o fewn gofal sylfaenol yn rhan o'r grŵp gwasanaethau hanfodol i sicrhau bod y newidiadau wedi'u halinio. Dywedodd Tracy Myhill na fyddai Covid-19 wedi mynd am amser hir a bod gwaith i gydbwyso gweithgaredd yn ystod y pandemig wedi'i wneud yn dda o ystyried yr amgylchiadau, ond roedd yn bwysig cefnogi'r rhai a ddylai fod yn cyrchu gwasanaethau a oedd ar hyn o bryd yn rhy ofalus. Ychwanegodd ei bod hi ac Emma Woollett yn drafftio llythyr agored i'r cyhoedd yn diolch iddynt am amddiffyn a chefnogi'r bwrdd iechyd, gan nodi cynlluniau rhag ofn ail uchafbwynt a beth oedd i'w roi ar waith ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Roedd angen cynllun am sut i sicrhau y byddai'n cyrraedd pawb oherwydd roedd yn cynnwys y neges y byddai'r bwrdd iechyd yma ar gyfer y bobl os oeddent ei angen.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r adroddiad llafar.	
165/20	Adroddiad Ariannol	

	Derbyniwyd adroddiad yn darparu diweddariad ar y sefyllfa ariannol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Darren Griffiths y pwyntiau a ganlyn: - Gorwariant o £5.396m oedd y safle ar ôl un mis, a ellir ei dorri i lawr i or-wariant gweithredol o £2m a gwariant Covid-19 o £3.3m; - Ail-seiliwyd y cyllidau yn seiliedig ar lefelau cyn-Covid-19 ac roeddent yn tanategu'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru; - Roedd Cyfalaf yn bresennol yn rhagweld gorwariant o £9.817m, £7.6m ohono yn perthynu i Covid-19, ond roedd hyn o dan ystyriaeth Llywodraeth Cymru; - 87.86% oedd y perfformiad yn erbyn targed taliad y sector gyhoeddus oherwydd heriau gweithlu a newidiadau mewn polisi, ond roedd yna uchelgais i wella hyn dros y misoedd i ddod.	
Penderfyniad:	- Dylid ystyried a rhoi sylwadau ar berfformiad ariannol y bwrdd ar gyfer cyfnod un (Ebrill) 2020-21; - Nodir effaith referniw Covid-19 ar gyfer cyfnod un 2020-21.	
166/20	Dull i Adfer, Dysgu ac Arloesi	
	Derbyniwyd diweddariad llafar yn nodi'r dull o wella, dysgu ac arloesi. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Hannah Evans y pwyntiau canlynol: - Roedd grŵp cydlynny yn ei le, gyda nifer o lifoedd gwaith amrywiol oddi tannodd, a fwydodd i mewn i'r Grŵp Llywio Adferiad, Dysgu ac Arloesi a gadeiriwyd gan aelod annibynnol; - Parhaodd y trafodaethau yn genedlaethol mewn perthynas ag ailgychwyn gwasanaethau hanfodol ac roedd canllawiau wrthi'n cael eu cyhoeddi; - Roedd celloedd blaenoriaeth o fewn y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar lawdriniaeth, gan benderfynu sut y gellid trin achosion brys yn ddiogel; - Roedd diagnosteg canser a llawfeddygaeth yn ffocws	

	allweddol arall; - Roedd gwaith dan arweiniad clinigol yn cael ei wneud mewn perthynas â chanoli'r cymeriant aciwt i mewn i un pwynt mynediad yn Ysbyty Treforys i gefnogi rheolaeth gofal Covid-19 a gofal nad yw'n Covid-19. Byddai angen i unrhyw newidiadau o'r fath fod ar waith ymhell cyn y gaeaf; - Roedd angen prosesau cyson ar gyfer derbyn cleifion o ran profi a pharthau gwasanaethau ar draws pob safle. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Mynegodd Reena Owen fod y dull 'gallu gwneud' a'r newidiadau yr oedd yn rhaid eu gwneud mewn cyfnod byr o amser wedi creu argraff arni. Pwysleisiodd bwysigrwydd peidio â cholli'r newidiadau cadarnhaol hyn i ddychwelyd yn ôl i ffyrdd blaenorol unwaith y byddai'r pandemig drosodd. Cytunodd Tracy Myhill, gan ychwanegu y byddai'n gamgymeriad i beidio â pharhau â'r datblygiadau arloesol newydd ond roedd yn bwysig nodi bod y cyflymder yr oedd pethau wedi newid mewn ymateb i Covid-19 ac na ellid cynnal y fath gyflymder pan oedd yn fusnes fel arferol. Dywedodd Richard Evans nad oedd fformiwla glir ar gyfer sut i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ddiogel yn ystod y pandemig. Roedd ymgysylltu clinigol yn hollbwysig, felly roedd grŵp cynghori clinigol wedi'i sefydlu i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol. Dywedodd Jackie Davies y dylai ffyrdd arloesol o weithio hefyd fod yn berthnasol i'r bwrdd a nododd effeithiolrwydd defnyddio technoleg i fynychu cyfarfodydd. Cytunodd Tracy Myhill, gan ychwanegu bod y digwyddiad Tîm Cymru diweddar wedi'i gynnal fwy neu lai ac yn cynnwys sefydliadau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, yr oedd yr adborth wedi bod yn gadarnhaol ar eu cyfer. Dywedodd fod "cwrdd â'r tîm gweithredol" rhithwir wedi digwydd yr wythnos honno a oedd wedi galluogi'r holl staff i ofyn cwestiynau, yn ddienw pe dymument, a gwerthfawrogwyd hyn gan y rhai a ymunodd.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r diweddariad.	
167/20	DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi sefyllfa'r bwrdd cenedlaethol ac iechyd mewn perthynas â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Gareth Howells y pwyntiau a	

	ganlyn: - Roedd yr adroddiad yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o dan yr amgylchiadau eithriadol; - Roedd dull unwaith-i-Gymru yn cael ei ddefnyddio tuag at staffio mwy diogel gyda systemau a chamau gweithredu ar waith. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Emma Woollett ei bod yn braf gweld y dull unwaith i Gymru a oedd yn dod yn fwy amlwg mewn nifer o feysydd. Nododd Jackie Davies nad oedd niiferoedd yr achosion yng Nghymru wedi bod mor uchel â'r rhai yn GIG Lloegr a gofynnodd a oedd hyn wedi golygu bod y bwrdd iechyd wedi gallu cynnal cydymffurfiaid â'r Ddeddf. Ymatebodd Gareth Howells oherwydd natur y firws, newidiodd llawer o'r wardiau ar draws yr ysbytai eu cylch gwaith a olygai nad oedd y ddeddf bellach yn eu cynnwys. Fodd bynnag, cynhaliwyd gwiriadau dyddiol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn parhau i gydymffurfio a bod staff yn symud yn unol â hynny. Dywedodd Tracy Myhill fod y bwrdd iechyd yn gweithio ar sail un gweithlu, ac roedd adolygu staff yn ddyddiol yn ddull newydd a roddodd gyfle i staff gael eu hailddyrannu yn ôl yr angen. Roedd staff wedi bod yn gefnogol i hyn a byddai'n hanfodol iddo aros yn ei le am y tro.	
Penderfyniad:	- Bod y byrddau / ymddiriedolaethau iechyd yn gweithio ar y cyd i ddilyn dull 'Unwaith i Gymru' gael ei nodi; - Dylid nodi safbwynt a disgwyliadau Llywodraeth Cymru; - Dylid nodi'r cytundeb i ohirio'r adroddiad dwyflynyddol gofynnol i'r bwrdd ar gyfer Mai 2020; - Dylid nodi'r dull y mae'r bwrdd iechyd yn ei gymryd i gynnal sicrwydd a rheoli risg yn unol â'r ddeddf trwy Covid-19; - Dylid nodi'r diweddariadau a'r camau a gymerwyd i roi sicrwydd ynghylch camau rhesymol; - Dylid nodi'r camau nesaf sydd wedi'u cynllunio i gynnal y gofynion deddfwriaethol.	
168/20	CANFYDDIADAU'R PANELI CRAFFU AR GYFER SAFONAU IECHYD A GOFAL	
	Derbyniwyd adroddiad yn darparu diweddariad ar yr hunanasesiad blynyddol terfynol yn erbyn y safonau iechyd a gofal.	

	Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Gareth Howells y pwyntiau a ganlyn: - Effeithiodd Covid-19 ar y broses graffu chwarter pedwar; - Sgoriwyd saith ardal; chwech ar lefel tri ac un ar lefel pedwar; - Roedd y sefyllfa wedi dirywio o 2018-19 gan fod tri maes wedi gostwng o lefel pedwar, ond roedd yn bwysig cofio bod y dangosyddion perfformiad allweddol yn amrywio bob blwyddyn felly roedd yn anodd tynnu cymariaethau uniongyrchol rhwng blynyddoedd; - Cafwyd mewnbwn ac ymgysylltiad gwych gan y cyfarwyddwyr gweithredol a'r unedau. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Reena Owen fod y canfyddiadau wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gynharach yr wythnos honno lle mynegwyd siom yn y tri maes a oedd wedi mynd o lefel pedwar i lefel tri. Dywedodd y gallai'r pandemig presennol fod yn gyfle i ddatblygu mwy o gynllun mewn perthynas â chefnogi'r cyhoedd i 'gadw'n iach' gan ei bod yn debygol y byddai mwy o dderbyniad nawr er mwyn datblygu poblogaeth iach a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Cytunodd Gareth Howells, gan ychwanegu bod ffocws sylweddol i'w roi i 'gadw'n iach' ac y byddai hwn yn ddarn allweddol o waith. Dywedodd Martyn Waygood ei fod wedi arsylwi cyfarfod clystyrau gofal sylfaenol yn ddiweddar lle'r oedd 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' wedi bod yn flaenoriaeth glir gydag arferion yn cyfeirio cleifion at gydweithwyr i drafod rhai dewisiadau ffordd o fyw, fel pwysau, yn hytrach na chanolbwyntio yn unig ar y pwrpas gwreiddiol yr apwyntiad. Dywedodd Tracy Myhill fod y sefydliad, cyn Covid-19, wedi bod yn edrych i sefydlu dull o gadw'n iach fel rhan o'r strategaeth hirdymor. Ychwanegodd fod gan y bwrdd iechyd nid yn unig gyfrifoldeb i drin cyflyrau ond hefyd i'w hatal ac roedd hyn yn rhywbeth yr oedd am barhau i'w ddatblygu, gan y byddai iechyd y cyhoedd bellach ar flaen meddyliau pobl. Dywedodd Martyn Waygood fod hwn yn gyfle da i dyfu elusen y bwrdd iechyd yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth ag eraill.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r adroddiad.	
169/20	Adroddiadau Materion Allweddol	

	(i) <u>Pwyllgor Archwilio</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020, a chymeradwywyd y cylch gorchwyl diwygiedig: Tynnodd Emma Woollett sylw at y 160 o gamau gweithredu oedd heb eu datrys i archwilio argymhellion a holodd y cynllun i fynd i'r afael â'r rhain. Ymatebodd Martin Sollis fod ymgyrch lanhau yn digwydd er mwyn rhoi ffocws i'r rhai a oedd â risg uchel. Ychwanegodd Pam Wenger ei bod i fod i gwrdd â'r pennaeth cyfrifyddu i drafod a symleiddio'r rhain gan nad oedd pob un yn dal yn berthnasol, ond bod cynnydd wedi'i ohirio oherwydd Covid-19. (ii) <u>Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020.	
170/20	Partneriaethau GIG Cymru	
	Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn darparu diweddariad ar y gwaith i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau trwy drefniadau ar y cyd.	
171/20	FFORWM PARTNERIAETH LEOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y fforwm partneriaeth lleol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Hazel Robinson fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn wythnosol i gwmpasu ystod o bynciau fel PPE, profi a lles staff o ystyried pa mor gyflym yr oedd pethau'n newid yn ystod y pandemig.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r adroddiad.	
172/20	MATERION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL	
	Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn darparu diweddariad ar faterion llywodraethu corfforaethol.	
173/20	YMATEB I GWESTIYNAU GAN AELODAU'R CYHOEDD	

	Dywedodd Emma Woollett fod cwestiynau wedi dod i law aelod o'r cyhoedd a chan eu bod yn ymwneud â gofal claf, byddai'r rhain yn cael eu hymateb yn uniongyrchol y tu allan i'r cyfarfod.	
174/20	UNRHYW FUSNES ERAILL	
	Nid oedd unrhyw fusnes pellach a chaewyd y cyfarfod.	
175/20	GWERTHUSO EFFEITHIOLRWYDD Y CYFARFOD	
	Gwahoddodd Emma Woollett aelodau'r bwrdd i gyflwyno adborth ar y cyfarfod iddi yn uniongyrchol.	
176/20	DYDDIAD CYFARFOD Y BWRDD NESAF	
	Dyddiad cyfarfod nesaf y bwrdd cyhoeddus oedd 25 Mai 2020.	

.....

Emma Woollett (Cadeirydd Dros Dro) Dyddiad: